

# **Cyngor Cymuned Llanystumdwy**

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar - nos Iau, 5fed o Ragfyr, 2019 yn Ffestri Capel Pencaenewydd.**

***Yn bresennol:*** Y Cyngorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans, Margaret Griffith, William Ifor Hughes, Trefor Wyn Jones, Gareth O. Davies, Ceri Jones, Naomi Jones, Sion Aled Jones a'r Clerc.

## ***Materion personol:***

Cydymdeimlwyd yn ddiffuant gyda theulu'r cyn Glerc, sef Mr Elwyn Griffiths, Cynefin, Pencaenewydd a fu'n Glerc am 25 mlynedd. Anfonwyd cerdyn at ei wraig a'i ferch ar ran y Cyngor.

## ***1.Ymddiheuriadau.***

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyngorwyr Aled Davies (Is-gadeirydd), Darren Morley, Tegid Jones, Sian Angharad Parry, Thomas Prys Jones, Angela Williams.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Dachwedd 2019.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Tachwedd 2019 gan y Cadeirydd.

4. Materion yn codi o'r cofnodion.

Ar y rhaglen.

5. **Datgan buddiant personol** - neb.

6. Cyngor Gwynedd.

7. **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned - dim.**

8. Binau halen o fewn y gymuned - mae 5 ohonynt:-

- ger Gwyddfôr, Chwilog,
- Pentyrch Uchaf, Llangybi,
- rhwng y Bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan a
- Tan yr Erw, Lon Gefn Llanystumdwy.

**Eglurwyd fod angen cadw golwg ar faint o halen sydd ynddynt yn gyson yn ystod y gaef, a gadael i'r Clerc wybod os oes angen ei llenwi. Roedd pob un yn llawn.**

9. Tocynnau bws i rai dros 60 oed

Gwybodaeth gan Un Llais Cymru yn dweud fod yn rhaid i bawb gael tocyn newydd i fynd ar y bws am ddim, o'r 31.12.2019 ymlaen. Gellir gwneud y cais dros y wé ar <https://tfw.wales/cy/cerdynteithio> neu gysylltu â'r ddesg gymorth ar 0300 303 4240, neu [cardiauteithio@trc.cymru](mailto:cardiauteithio@trc.cymru). Derbyn er gwybodaeth a rhoi y wybodaeth yn rhifyn Rhagfyr o'r Ffynnon.

## **10: Cynnal a chryfhau Bioamrywiaeth o fewn y gymuned**

Derbyniwyd ebost gan Un Llais Cymru 06.09.19, yn dweud ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Cyngorau Cymuned & Thref) o dan Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016, Adran 6, i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn y bwriadant ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i Gynnal a Chryfhau Bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol.

Dylid cyhoeddi adroddiad cyn diwedd 2019, a phob 3 mlynedd wedyn, yn dangos beth mae'r awdurdod cyhoeddus wedi ei wneud i gydymffurfio â'r dyletswydd i gynnal a chryfhau bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol.

Derbyniwyd bwletin newyddion arall gan Un Llais Cymru wedyn ar 19.09.19, yn dweud,

"rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i Un Llais Cymru y cyhoeddir Canllawiau maes yn y dyfodol agos". Y Clerc wedi derbyn ebost gan Un Llais Cymru 11.11.19, yn cynnwys atodiadau amrywiol ar beth sydd angen ei wneud, ac yn cynnwys templed o 'Adroddiad ar y Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau 2019. **Y Clerc am drefnu i baratoi cynllun.**

## **11. Materion yn y gymuned.**

### **Llanarmon**

#### **Llanystumdwy**

Y Clerc wedi cysylltu hefo'r Adran Priffyrdd, yn dilyn derbyn ymholiad yn dweud "*fod y draen sydd ochr uchaf i droad am y ganolfan iaith, Tŷ Newydd, Llanystumdwy wedi codi, ac nad oedd y dwr i mynd i lawr y beipan*". **Heb dderbyn ymateb eto.**

#### **Rhoslan /Ynys**

Y Clerc wedi cysylltu hefo'r Adran Priffyrdd, yn dilyn derbyn yr ymholiad isod, "*yn dilyn gwyntoedd cryfion mae coeden wedi plygu a gogwyddo yn ddrwg i'r ffordd yn ymyl Betws Fawr (i gyfeiriad Chwilog o'r fferm). Mae'r goeden yn isel ac anodd i faniau uchel fynd heibio. Hefyd, yn ymyl tro Betws Fawr mae rhyw dractor/beiriant mawr wedi colli rheolaeth a wedi mynd drwy'r ochor a creu llanast*". **Mae'r goeden eisioes wedi cael ei thorri a'i symud.**

### **Chwilog**

## **12. Llwybr troed o Chwilog i Afonwen**

Clerc wedi derbyn llythyr (18.11.19), gan Mr Gareth Wyn Griffith, Aelod Cabinet-Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, yn dweud ei fod yn cefnogi'r angen am lwybr pwrpasol rhwng Chwilog a'r rhwydwaith beicio sydd ar yr A497.

Dywedodd y bydd y gwasanaeth yn ychwanegu'r llwybr i'r mapiau teithio llesol, pan fydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud addasiadau i'r mapiau. Bydd hyn wedyn yn cynnig cyfleoedd i'r Cyngor ddenu arian grantiau ar gyfer gwneud y gwaith yn y dyfodol.

**Y Clerc wedi anfon llythyr at yr Aelod Cynulliad gan mai gwneud cais am arian i'r cynulliad fydd raid, i geisio denu arian o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

**13. Maes chwarae Maes Myrddin, Chwilog** – derbyniwyd llythyr gan Reolwr Prosiect Priffyrdd Cyngor Gwynedd 31.10.19, yn dweud oherwydd sefyllfa y toriadau ariannol, ei bod eisiau i ni ystyried gwahanol opsiynau.

Yn dilyn ein cyfarfod diwethaf, anfonodd y Clerc lythyr at Cyngor Gwynedd, yn dweud fod y Cyngor Cymuned eisiau cadw'r adnodd i'r pentref, gan ofyn tybed a

oedd bygythiad i gollí'r parc yn gyfangwbl. Eglurwyd hefyd y byddai costau ychwanegol o fod yn gyfrifol am y maes chwarae, a gofynwyd am fwy o wybodaeth am ddatblygu ffordd o weithio i gael opsiynau/trosglwyddo neu weithio mewn partneriaeth. **Nid oes ateb wedi cyrraedd eto.**

## **Pencaenewydd/Sardis**

### **Llangybi**

#### **Materion Ariannol**

14. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, ac y rhagwelir sydd angen ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2020, drwy ffurf rhestr 'excel'.

Y Cadeirydd wedi llofnodi'r ddogfen, sydd wedi cael ei diweddarau hyd at 05.12.19.

Wedi derbyn anfoneb am yr archwilio allannol, sydd yn £249.60, (mae wedi gostwng o £393.75 llynedd).

15. **Praesept 2020-2021** - wedi derbyn ebost gan Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd yn gofyn faint o braesept yr oedd Cyngor Cymuned Llanystumdwy ei angen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Angen cwblhau'r ffurflen gais cyn 24.01.2020. Penderfynwyd gofyn am £5000.00 yn fwy o 01.04.20 ymlaen (cyfanswm o £20,000.00), er mwyn gallu cyfrannu mwy tuag at Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2021. Y Clerc wedi derbyn cadarnhâd gan Mr Mel ab Owain, o Un Llais Cymru, yn dweud y byddai'n dderbyniol i wneud hyn. Penderfynwyd trafod y mater yn ein Pwyllgor Busnes ar ddiwedd y cyfarfod yma, ac i wneud penderfyniad terfynol yn y cyfarfod llawn nesaf fis Ionawr 2020.

16. Gohebiaeth gan Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol ynglŷn â swm priodol gwariant o dan Adran 137 (1) o Ddeddf 1972, yn caniatáu i'r Cyngor Cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch. Mae hyn os bydd y Cyngor yn ystyried bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled a bod y gost yn gyson â'r budd. Yr uchafswm y gellir ei wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 fydd £8.32 am bob etholwr yn lle £8.12 eleni. Ym mis Mai 2019 roedd 1518 o etholwyr ar y gofrestr yng nghymuned Llanystumdwy.

17. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor** - mae'r hysbyseb wedi cael ei roi yn Y Ffynnon, rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2020.

18. **Hysbysfwrdd** - y Clerc wedi gofyn wrth Mr Alun Owen ei gwneud, a byddant yn barod ddechrau'r flwyddyn:- Capel Pencaenewydd, Neuadd Chwilog, Llanystumdwy, a Rhoslan.

19. Anfonebau angen eu talu:- drwy BACS.

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio Allanol (ARINV/002876)	249.60		249.60	249.60

Cyflog mis Tachwedd 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM:-

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Tachwedd 2019 35 awr x £10.37 =	362.95-llai treth £72.60	<b><u>290.35</u></b>	101142
Cyllid a Thollau EM- Treth ar enillion y Clerc Tachwedd 2019	362.95 x 20% = llai treth £72.60	<b><u>72.60</u></b>	101143
Costau'r Clerc Tachwedd 2019 Stamp i anfon rhaglen i'r Cynghorydd W.I.Hughes	16.00  0.61	<b><u>16.61</u></b>	101144

Materion Hwyr:-

Caniatawyd ei trafod gan y Cadeirydd ar y noson:-

1. **Cais i gefnogi llywodraethwyr Ysgol Chwilog am fuddsoddiad sylweddol yn yr Ysgol.** - Roedd y Cynghorydd Margaret Griffith wedi bod yng nghyfarfod y Llywodraethwyr (ar ran y Cyngor Cymuned) ar 03.12.19. Eglurwyd fod y sefyllfa'n ddyrus iawn yno. Ar y funud mae yna 52 o blant yno, 62 ym mis Medi 2020, a tua 10 ychwanegol yn y flwyddyn ganlynol. Mae yna 3 datblygiad i adeiladu tai wedi ei ganiatau yn Chwilog, ac felly mae'n debyg y bydd teuluoedd hefo plant yn byw ynddynt. Yr hyn sydd yn cymhlethu'r sefyllfa yw fod yr Ysgol Feithrin mewn un dosbarth yn yr ysgol, ond mae'r drefn yma'n gweithio'n dda i rieni a'r plant. Teimlai Cadeirydd y Llywodraethwyr fod angen cefnogaeth gan bawb, yn cynnwys y Cyngor Cymuned. **Gofynnwyd felly i'r Clerc anfon llythyr at yr Adran Addysg, i ofyn am fuddsoddiad sylweddol yn yr ysgol oherwydd y niferoedd fydd yn cynnyddu yn y dyfodol ago, o fewn y 5 mlynedd nesaf.**
2. **Bin baw ci - Chwilog** - ymholiad yn dweud fod y bin baw ci wedi dod i lawr yn Chwilog ers tro ac angen ei ail osod. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau hefo'r Warden Gorfodaeth Stryd, i'w ail osod, neu i gyfarfod yr aelod o'r cyhoedd oedd wedi gwneud yr ymholiad i weld oes oedd lle fwy addas i'w osod. **Y Clerc am drefnu.**
3. **Eisteddfod Genedlaethol 2021** - y Clerc wedi anfon ebost at Mr Mel ab Owain, o Un Llais Cymru yn holi tybed a fyddai'n iawn i godi ychydig ar y praesept, er mwyn gallu cyfrannu mwy at yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2021. Derbyniwyd cadarnhâd ganddo yn dweud y byddai'n iawn i godi'r praesept er mwyn gwneud hyn, o dan Ddeddf Gwelliant (2000), ac adran 137 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fydd y cyfraniad yn cael ei wneud.

**Elusen William Ellis** - ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor, bu cyfarfod i Gynghorwyr Ward Llanystumdwy a'r Clerc i drafod y cais a dderbyniwyd am gyfraniad o Elusen William Ellis. Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Gareth O. Davies, Naomi Jones, Sion Aled Jones a'r Clerc.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.